Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Parc Y Tywyn
# Heol y Bardd
# Porth Tywyn
# Llanelli
# Sir Caerfyrddin
# SA16 0NL

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Parc Y Tywyn

Lleolir Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn ar gyrion pentref Porth Tywyn, yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 256 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 8 oed meithrin amser llawnamser a 23 rhan-amser. Trefnir y disgyblion yn wyth dosbarth oed sengl a dau oed cymysg.

Dros dreigl tair blynedd, tua 10% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Mae 25% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 12% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2012 a phenodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 2018.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae’r amgylchedd cartrefol a chynhwysol yn cyfrannu’n effeithiol at ymdeimlad y disgyblion o falchder yn eu gwaith a’u perthyn i’r ysgol. Maent yn hapus i’w mynychu, yn ymddwyn yn dda iawn ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Yn ystod eu cyfnod yno, mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni’n dda.

Mae’r athrawon yn darparu profiadau dysgu diddorol i’w disgyblion, sy’n bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt. Mae naws Gymreig yn bodoli yn yr ysgol gyda’r ddarpariaeth yn hybu’r disgyblion i wneud defnydd llawn o’r Gymraeg ym mhob agwedd o’i gwaith a’i bywyd. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos balchder tuag at yr iaith a gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol. Maent yn defnyddio eu tafodiaith leol yn gwbl naturiol.

Mae’r pennaeth yn gweithio’n effeithiol gyda’r staff a’r corff llywodraethol. Mae hyn yn hyrwyddo gwaith tîm cryf ac yn cael effaith gadarnhaol ar amgylchedd ddysgu'r ysgol.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau darllen disgyblion cyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau bod cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Cryfhau rôl y llywodraethwyr wrth fonitro ansawdd y ddarpariaeth a safonau i'w galluogi i herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o'r disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau llythrennedd a medrau mathemategol sy'n is na ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6.

Mae medrau llafar llawer o ddisgyblion yn gryf ar draws yr ysgol. Mae mwyafrif y disgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol heb fedrau'r Gymraeg yn defnyddio'r iaith yn bwrpasol erbyn diwedd y dosbarth derbyn. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn gwersi a sefyllfaoedd anffurfiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn trafod yn hyderus ac yn aeddfed wrth gymharu dathliadau'r Nadolig a Divali. Ar frig cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn egluro eu dewisiadau yn gryno ac aeddfed, er enghraifft wrth drafod 'a ddylai ffonau symudol gael eu defnyddio yn yr ysgol?'. Maent yn siarad yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddefnyddio iaith ffurfiol, lle bo'n briodol. Wrth sgwrsio yn y Gymraeg, maent yn defnyddio eu tafodiaith leol yn gwbl naturiol. Ar y cyfan, mae medrau gwrando rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol iawn.

Mae medrau darllen rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n gadarnhaol ae gyfer eu hoed a'u gallu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a synau ac yn dechrau creu geiriau'n hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu i fod yn ddarllenwyr cadarn ac yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder. Maent yn mwynhau trafod llyfrau a chymeriadau o wahanol storïau, er enghraifft am anturiaethau Mostyn a'r mwyar duon. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y mwyafrif o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o'r hyn maent yn ei ddarllen yn y Gymraeg a Saesneg. Mae'r rhan fwyaf yn trefnu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol yn addas er enghraifft wrth olrhain hanes bywyd Edward Jenner. Fodd bynnag, lleiafrif o'r disgyblion sydd â medrau darllen digon cadarn a dim ond ychydig o ddisgyblion sy'n ymhelaethu wrth drafod eu hoff lyfrau.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarnhaol. Maent yn defnyddio geirfa ac iaith amrywiol yn gynyddol ym Mlwyddyn 1 a 2. Ar y cyfan, maent yn ysgrifennu darnau diddorol ac yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau, er enghraifft wrth iddynt ddwyn stori Gelert i gof. Mae'r disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n aeddfed ac estynedig yn effeithiol, er enghraifft wrth gofnodi gweithgareddau dyddiol ceidwad sŵ. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyflwyno'u syniadau yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith wrth iddynt gofnodi hanes, er enghraifft y Pla. Maent yn ysgrifennu'n hyderus mewn ystod o ffurfiau ar draws y cwricwlwm, wrth gymharu Cymru â Mecsico ac ysgrifennu adroddiad fforensig, er enghraifft.

Mewn gwersi mathemateg, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau rhifedd penodol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn adnabod, trefnu a defnyddio rhif yn gadarn yn eu gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn casglu, cyfrif a didoli deunydd naturiol o'r ardal allanol ac yn amcangyfrif a mesur rhychwant llaw a hyd eu traed gan ddefnyddio gwrthrychau ansafonol yn hyderus. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn

casglu data am eu hoff anifeiliaid yn seiliedig ar y stori ‘Annwyl Sŵ’ a’i arddangos ar ffurf graff bar. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o werth lle. Maent yn cyflwyno gwaith mathemateg ar lefel sy’n unol â’u hoed a’u gallu. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn ysgrifennu a thrin rhifau hyd at chwe digid yn llwyddiannus ac yn defnyddio nifer o strategaethau pen yn hyderus wrth luosi a rhannu rhifau cyfain a degolion. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhif yn hyderus i resymu, casglu, cofnodi a dadansoddi data. Maent yn ei gasglu, ei arddangos a’i ddadansoddi’n gywir wrth iddynt ymchwilio i effaith tymheredd oer ar bengwiniaid. Fodd bynnag, prin yw eu defnydd o’u medrau rhifedd mewn pynciau amrywiol.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n bwrpasol wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio llechen electronig yn annibynnol wrth dynnu llun a rhoi cyfarwyddiadau i symud teclyn electronig i ddarganfod llythrennau. Yn ogystal, maent yn creu ffilmiau byr i ddangos taith ‘Elfed yn y Jwngl’ ac yn medru cadw eu gwaith ar raglen fasnachol yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn creu cyflwyniadau aml gyfrwng yn effeithiol. Maent yn creu ffilmiau sgrin werdd i greu bwletin newyddion am estron yn glanio yn y parc lleol, er enghraifft. Defnyddia’r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 eu medrau i greu hysbysebion byw i hybu hawliau’r disgybl ac i greu bas data am bwysau anifeiliaid gwahanol o’r Antartig. Maent yn defnyddio taenlenni’n hyderus er mwyn cymharu prisiau bwyd rhwng dwy archfarchnad a’u defnyddio i gyfrifo cost parti Nadolig.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn gyfforddus i droi at gyfoedion ac oedolion am gyngor a chymorth. Mae’r disgyblion yn gwrtais iawn tuag at staff ac at ei gilydd ac mae bron pob un ohonynt yn garedig a gofalgar. Mae ymddygiad bron pob un o’r disgyblion yn dda iawn ac maent yn ymfalchïo’n fawr yn eu hysgol. Maent yn awyddus i rannu eu barn a’u llwyddiannau gydag ymwelwyr.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu. Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig ac yn cadw ar dasg dros gyfnodau estynedig. Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio’n dda iawn o fewn y dosbarth ac yn dangos diddordeb brwd yn eu gwaith wrth iddynt ddarganfod effaith diodydd gwahanol ar blisgyn ŵy. Mae hyn yn cyfrannu’n llwyddiannus iawn at yr ethos cynhwysol a chartrefol sy’n bodoli o fewn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau dyfalbarhad a gwydnwch yn llwyddiannus ac yn ymateb yn gadarnhaol i’r strategaeth ‘tri cyn fi’ a ‘ffrindiau ffyddlon’ i oresgyn heriau wrth weithio’n unigol.

Mae llawer o’r disgyblion yn dechrau cyfrannu eu syniadau’n effeithiol tuag at gynllunio heriau dyddiol yn y cyfnod sylfaen a meysydd mentro yng nghyfnod allweddol 2. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn cyfrannu i’w gweithgareddau, ac yn datblygu eu medrau i wella’u gwaith eu hunain yn llwyddiannus, ond nid ydynt yn gweithio’n ddigon annibynnol yn gyson.

Mae llawer o’r disgyblion yn awyddus i ymgymryd â chyfrifoldebau ac maent yn chwarae eu rôl yn dda. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae’r cyngor ysgol wedi cyflwyno hawliau gwahanol i’w cyfoedion ac wedi dechrau cyfrannu tuag at gyfeiriad strategol

yr ysgol drwy fesur effaith polisi ymateb i waith ysgrifenedig. Mae grwpiau o ddysgwyr eraill, fel y dewiniaid digidol, yn cefnogi medrau TGCh nifer o ddisgyblion yn effeithiol, yn enwedig disgyblion y cyfnod sylfaen. O dan arweiniad y cyngor eco, mae gan ran fwyaf y disgyblion wybodaeth gadarn am gynaliadwyedd trwy atal gwastraff dŵr, ynni a phapur. Mae aelodau'r criw Cymraeg yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg, ac maent yn dechrau dylanwadu ar feithrin Cymreictod ar draws yr ysgol. Maent yn ymdrechu i gael pob disgybl i hyrwyddo'r iaith yn llwyddiannus yn ystod gwersi a chyfnodau egwyl.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw eu hunain yn heini ac iach. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn addysg gorfforol fel rhan o'u cwricwlwm, cerdded milltir y dydd a gweithgareddau aml-sgiliau dyddiol y ffrindiau ffitrwydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel.

Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesol a chydwybodol drwy nifer o weithgareddau amrywiol fel cynnal pythefnos masnach deg, cyfrannu i'r banc bwyd lleol a chydweithio ag Aelod Seneddol i waredu plastig yn yr ardal. Maent yn ymfalchïo yn y cyfle i gyfrannu at weithgareddau yn y gymuned ac mewn gwasanaethau yn yr eglwys. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu dealltwriaeth gadarn llawer o ddisgyblion am faterion cymdeithasol ac anghenion pobl eraill.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae gan yr holl staff berthynas waith effeithiol gyda'r disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu. Mae'r parch sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r oedolion yn nodwedd bwysig o waith yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sicrhau rhediad da i'w gwersi. Maent yn gosod amcanion dysgu clir ac yn defnyddio ystod o adnoddau diddorol i ennyn diddordeb disgyblion. Maent yn atgoffa'r disgyblion o'u dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn gosod tasgau cyffrous er mwyn tanio dychymyg y disgyblion. Mae ansawdd eu cyflwyniadau a'u cwestiynau yn dreiddgar iawn sy'n sicrhau bod bron pob disgybl yn ymroi'n llwyr i'r dasg. Mae'r cymorthyddion yn darparu cefnogaeth dda er mwyn i ddisgyblion gwblhau ac elwa o'u tasgau'n llwyddiannus. Mae cydweithio effeithiol rhwng holl staff yr ysgol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ymddygiad pob disgybl.

Darperir cyfleoedd rheolaidd gan staff i ddisgyblion asesu a myfyrio ar eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion. Drwy ddefnyddio strategaethau gwahanol, mae gan y disgyblion, o oed cynnar, ddealltwriaeth gref ynglŷn â beth maent wedi'i wneud yn dda ac i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith ymhellach.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi sefydlu'n llwyddiannus. Mae'r staff yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol trwy ddarparu profiadau cyffrous a diddorol iddynt drwy weithgareddau ffocws tu fewn a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Maent yn ysgogi'r disgyblion yn effeithiol i ddarganfod a dysgu'n annibynnol o'r cychwyn. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'r ardaloedd awyr agored i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol. Enghraifft

dda o hyn yw'r defnydd a wnânt o'r traeth a'r harbwr cyfagos i sbarduno dychymyg y disgyblion i ysgrifennu'n greadigol.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chyfoes sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Mae'r gwaith yn seiliedig ar themâu, a chyfoethogir y cwricwlwm yn llwyddiannus trwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol i siarad â disgyblion, a threfnu amrywiaeth o ymweliadau addysgol pwrpasol. Er enghraifft, caiff y disgyblion gyfle i wersylla ar droed yr Wyddfa fel rhan o thema Blwyddyn 5 a 6 i ddysgu am dirluniau gwahanol.

Wrth ddilyn gofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, mae'r staff yn cynllunio a darparu cyfleoedd cyson ac effeithiol i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau TGCh ar draws y cwricwlwm. Yn ogystal, defnyddir offer fel y sbectol digidol i greu, er enghraifft, goedwig ddychmygol sy'n datblygu medrau meddwl a llafar y disgyblion yn effeithiol. Ar y cyfan, mae'r staff yn cynllunio nifer o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar ac ysgrifennu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau rhifedd mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm mor gyfoethog.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi addasu'r cwricwlwm i gynnwys agweddau o ofynion y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cyfrannu at weithgareddau sy'n ymwneud â'u thema gyfredol. Er enghraifft, mae'r disgyblion ym Mlwyddyn 1 wedi dewis ysbyty fel cornel chwarae rôl ac, ym Mlwyddyn 3, yn seiliedig ar stori'r Gryffalo, mae'r disgyblion yn ymchwilio i hyd dannedd anifeiliaid gwahanol. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am ddewis lefel yr her yn eu tasgau. O ganlyniad, mae rhan fwyaf disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr hyderus ac aeddfed.

Mae'r staff yn fodelau iaith effeithiol ac yn hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn dda. Mae hyn yn meithrin balchder a gwybodaeth ymhlith y disgyblion ynglŷn â'r ardal leol a diwylliant Cymru. Mae staff yn annog disgyblion i astudio cymeriadau enwog fel Hedd Wyn ac i ddysgu am ddigwyddiadau hanesyddol lleol fel glaniad Amelia Earheart ym Mhorth Tywyn.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn sicrhau ethos cynhwysol, gofalgar a hapus i'r holl ddisgyblion. Mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad yn cael effaith lwyddiannus ar safonau a lles y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn i olrhain cynnydd a lles disgyblion. Mae'r rhain yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y cynllunio ac er mwyn darparu cefnogaeth effeithiol ar gyfer anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn.

Mae gan bob disgybl ag anghenion addysgol arbennig gynlluniau unigol sy'n cynnwys targedau heriol, penodol a meintiol. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol arbenigol fel y swyddogion lles wrth lunio'r cynlluniau. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei haddasu'n benodol i ddiwallu anghenion y disgyblion ac maent yn cynnig cefnogaeth fwriadus i'w teuluoedd. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n gyson ar y cyd â'r disgyblion a'u rhieni, gan eu haddasu'n bwrpasol yn ôl yr angen.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn seiliedig ar ei pholisi drws agored. O ganlyniad, mae cydweithrediad cadarn rhwng y rhieni â'r ysgol. Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth a chymorth priodol er mwyn cynorthwyo rhieni i gefnogi gwaith eu plant. Mae'r rhieni yn cyfrannu at, ac addasu, proffil un tudalen eu plant ac yn derbyn gwybodaeth gyson am themâu'r tymor drwy eu hymrwymiad a gwaith cartref eu plant.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd niferus i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau synhwyrol er lles eu cymuned. Trwy waith grwpiau llais y plentyn, fel cywaith heddwch cyngor y Glôb, mae dealltwriaeth y disgyblion o werthoedd, hawliau a pharch yn datblygu eu medrau moesol yn gadarn. Amlygir hyn yn amlwg iawn yn ymddygiad cyfeillgar y disgyblion â'i gilydd, i holl oedolion yr ysgol ac ymwelwyr. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol y disgyblion yn effeithiol trwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli priodol, gwersi addysg grefyddol a thrwy ymuno â digwyddiadau blynyddol yn y gymuned, fel gwasanaeth y Cofio. Mae'r ysgol yn annog y disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol drwy godi eu hymwybyddiaeth am anghenion eraill drwy weithgareddau masnach deg a chodi arian at elusennau'n rheolaidd.

Mae amrywiaeth pwrpasol o gyfleoedd i ddisgyblion berfformio yn yr ysgol, yn y gymuned a thu hwnt. Mae enghreifftiau da yn cynnwys perfformio mewn cyngerdd gyda'r côr meibion lleol a chystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar hunanhyder y disgyblion. Yn ogystal, mae cyfleoedd niferus i'r disgyblion ddatblygu eu medrau creadigol yn effeithiol drwy weithio gyda beirdd ac arlunwyr o Gymru. Mae ymweliadau addysgol i leoedd diddorol fel Llundain a'r cwrs preswyl i wersyll ym Mhentywyn yn meithrin medrau cymdeithasol a gallu'r disgyblion i weithio mewn tîm yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn deall sut i fod yn ddiogel. Trwy nifer o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol, mae gan ddisgyblion wybodaeth dda am yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i gadw'n iach. Mae nifer o brofiadau yn cael eu cynnig y tu hwnt i'r ysgol, fel dringo mynydd Eryri ac mewn perthynas â chanolfan hamdden leol, gweithgareddau treiathlon. Mae'r cyfleoedd gwerthfawr hyn yn datblygu ffitrwydd y disgyblion yn dda.

Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth yn gosod cyfeiriad eglur a chadarn i ddatblygiad yr ysgol. Yn y cyfnod ers ei benodiad, mae wedi sicrhau gwelliannau parhaus o ran cysoni strategaethau, a chodi disgwyliadau o ran safonau. Mae'r staff yn rhannu'r weledigaeth gadarn ynglŷn â hybu Cymreictod, meithrin parch ac annog disgyblion i wneud eu gorau. Maent yn cyfleu hyn i'r disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr yn llwyddiannus iawn.

Mae rheolwyr wedi ailddiffinio rolau a chyfrifoldebau'r staff yn llwyddiannus. Mewn cyfnod byr, maent wedi llwyddo i greu ethos o gydweithio effeithiol iawn ymhlith y staff, a gyda'i gilydd, maent yn creu gwelliannau cadarnhaol. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli wedi gosod nifer o strategaethau gwerthfawr sy'n gwella'r ddarpariaeth a safonau'r disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r sylw manwl a roddir i

gynnydd disgyblion a’r cynllunio cadarn sy’n sicrhau parhad effeithiol a her yn nysgu’r disgyblion.

Mae gan holl staff yr ysgol ddealltwriaeth gref o gryfderau’r ysgol a meysydd sydd angen eu gwella. Mae amserlen fanwl ar gyfer cynnal nifer o weithgareddau hunanwerthuso pwrpasol sy’n rhoi darlun gonest a chywir o’r ysgol ac yn cydblethu â meysydd y cynllun gwella yn bwrpasol. Mae’r staff yn craffu ar waith, dadansoddi data, arsylwi gwersi, cynnal teithiau dysgu ac, yn fwy diweddar, yn rhannu arferion da. Defnyddiant yr adborth yn fwriadus er mwyn cynnal safonau da'r disgyblion ac i wella’r ddarpariaeth. Mae’r cynllun gwella yn cynnwys nifer o flaenoriaethau pwrpasol ac yn clustnodi adnoddau a staff yn effeithiol er mwyn eu cwblhau. Enghraifft nodweddiadol o lwyddiant yw’r gwelliannau ym medrau ysgrifennu disgyblion y cyfnod sylfaen.

Ar y cyfan, mae’r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel datblygu medrau llythrennedd y disgyblion ar draws pob maes dysgu a chodi eu safonau llafar Cymraeg. Mae’r ysgol yn cynllunio ar gyfer y fframwaith cymhwysedd digidol yn effeithiol ac wedi dechrau bodloni gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru yn addas.

Mae’r ysgol yn datblygu’n gymuned ddysgu lwyddiannus. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn eu lle, sy’n gosod amcanion addas ar gyfer datblygu medrau staff ymhellach ac sy’n seiliedig ar flaenoriaethau'r cynllun gwella. Maent yn dechrau elwa o gyfleoedd pwrpasol i rannu arfer dda o fewn yr ysgol a thu hwnt. Er enghraifft, wedi i’r staff ymweld a chydweithio ag ysgolion lleol, maent wedi cyflwyno cynllun newydd i ymateb i waith y disgyblion. Mae hwn yn cael effaith gadarnhaol ar godi safon gwaith y disgyblion a’u cyfraniad i wella’u gwaith eu hunain.

Mae’r cadeirydd, ynghyd â nifer o aelodau’r corff llywodraethol, yn brofiadol ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o berfformiad yr ysgol. Maent yn derbyn adroddiadau gonest a chynhwysfawr gan y pennaeth am fywyd a gwaith yr ysgol. Er hyn, nid yw ei rôl i ddwyn yr ysgol i gyfrif am safonau a chyrhaeddiad y disgyblion wedi ei llwyr ddatblygu.

Mae gan yr ysgol amrediad da iawn o adnoddau, sy'n cael eu defnyddio’n effeithiol i gyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion. Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn rheoli gwariant yn ofalus iawn ac yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau strategol yr ysgol. Gwneir defnydd da o'r grant datblygu disgyblion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a lles y disgyblion sy'n deilwng i’w dderbyn. O ganlyniad, mae’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/12/2019